# MESUR IECHYD MEDDWL (CYMRU) 2010

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Adran 1* – Ystyr "partneriaid iechyd meddwl lleol"**

2. Mae'r adran hon yn creu'r term 'partneriaid iechyd meddwl lleol' i ddisgrifio'r cyrff (yr awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol (BILl)) sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol. Mae'r partneriaid iechyd meddwl lleol yn gyfrifol hefyd am wneud trefniadau i asesu defnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (o dan Ran 3 o'r Mesur). Mae'r term yn gymwys felly i'r Mesur cyfan, nid dim ond Rhan 1.

3. O gofio bod ardaloedd y BILl yn ehangach nag ardaloedd yr awdurdodau lleol, fe fydd y BILl yn bartneriaid iechyd meddwl lleol mewn mwy nag un ardal, er y bydd ganddyn nhw bartner gwahanol yn ardal pob awdurdod lleol.